# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-01-09)

**Dyddiad: 22 Ionawr 2009**
**Amser: 13:00 – 15:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

## Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc
Eraill yn bresennol
Huw Thomas, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Dai Davies, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Rhian Nowell-Phillips, Undeb Amaethwyr Cymru
Julian Salmon, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Derek Holliday, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Simon Neale, Asiantaeth yr Amgylchedd
Roger Wade, Asiantaeth yr Amgylchedd

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett, Rhodri Glyn Thomas a Karen Sinclair.

### Eitem 2 : Ymchwiliad i Ostwng Carbon yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth ar y defnydd o dir

2.1Croesawodd y Cadeirydd Huw Thomas, Dai Davies, Rhian Nowell-Phillips, Julian Salmon, a Derek Holliday i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i roi sylwadau cychwynnol ar Ostwng Carbon drwy'r Defnydd o Dir. Bu'r aelodau'n holi'r tystion.

2.2Cytunodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am beth oedd y rhwystrau gyda golwg ar ddeiet da byw; prosiectau ymchwil Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Aberystwyth; gwybodaeth o Awstria ar y tâl a godir am ynni adnewyddadwy a'r astudiaeth yn Awstralia ar y sector glaswelltir dwys.

### Eitem 3 : Ymchwiliad i Ostwng Carbon yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth ar y defnydd o dir

3.1Croesawodd y Cadeirydd Simon Neale a Roger Wade i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i gynnig ychydig o sylwadau cychwynnol ar Ostwng Carbon drwy'r defnydd o dir. Bu'r aelodau'n holi'r tystion.

### Eitem 4 : Ystyriaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar Graffu ar Is-ddeddfwriaeth a Phwerau Dirprwyedig

4.1Cytunodd Mick Bates i ddrafftio ymateb i'r ymchwiliad hwn

### Eitem 5: Papurau i'w nodi

5.1Nododd y pwyllgor y papurau a ganlyn:

Ymateb i gwestiynau ar Ostwng Carbon drwy Gynhyrchu Ynni gan y Gweinidog

Tystiolaeth bellach gan RSPB Cymru

Tystiolaeth bellach gan BWEA Cymru